# Materion Llywodraethiant a nodwyd

## Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd Llynedd

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r materion llywodraethiant a nodwyd llynedd ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd:

| Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| 1. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn dilyn mabwysiadu Cynllun Newydd y Cyngor ar gyfer 2023-2028 | Trawsnewid | Bu adolygiad o ddangosyddion y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Mae cerdyn sgorio newydd, sy'n cysylltu dangosyddion ag chwe amcan strategol y cynllun y cyngor, wedi'i drafftio a'i gytuno gyda'r Pwyllgor Gwaith. Bydd yr adroddiad chwarterol cyntaf yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024. |
| 2. Rhoi materion yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn briodol | Swyddog Monitro | Mabwysiadwyd y Cynllun Deisebau gan y Cyngor ym mis Medi 2023.<br><br>Yn ystod 2023, adolygodd y Cyngor y dull hunanasesu a gwnaeth nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Diwygiwyd y templed i ganolbwyntio ar saith maes allweddol, yn unol â'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Cytunwyd ar y Strategaeth Gyfranogi a'i mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Hydref 2023.<br><br>Ni chynhaliodd y Cyngor yr hyfforddiant arfaethedig ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol gan nad oedd yr hyfforddiant yn cael ei gynnig mwyach gan y CLILC oherwydd bod blaenoriaethau eraill wedi dod i'r amlwg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn. |
| 3. Diweddaru fframwaith rheoli risg y Cyngor | Adnoddau | Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu fframwaith rheoli risg diwygiedig ac wedi diweddaru'r system rheoli risg, 4Risk, i fodloni gofynion y fframwaith. |
| 4. Mae'r Cyngor angen nodi ei wariant cyfalaf yn unol â Chynllun newydd y Cyngor | Adnoddau | Mabwysiadwyd Strategaeth Gyfalaf newydd 2024-2029 gan Gyngor Ynys Môn ym mis Mawrth 2024. |
| 5. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd | Trawsnewid / Adnoddau | Mae'r ymarfer mapio sicrwydd ar waith yn dilyn diweddariad i'r system rheoli risg, 4Risk. Mae angen rhagor o waith yn ystod 2024/25 i ymgorffori'r broses. |

DRAFT

